

Mentora Amlieithog Multilingual Mentoring

Pearson Edexcel

# **Mwy na geiriau:** Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Basma Alaufi, LLB yn y Gyfraith a Throseddeg.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Dwi'n siarad Arabeg gartref gyda'r teulu ac yn fy ngwlad, Oman. Dwi'n gallu siarad Saesneg hefyd a dechreuais ddysgu Sbaeneg sylfaenol yn yr ysgol ond nes i barhau i'w hastudio fy hun gartref. Mae gen i ddiddordeb mewn dysgu Japanaeg gan fy mod i'n gwylio anime, ac Eidaleg gan fy mod i'n caru celf.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Pan oeddwn i'n 10 oed.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Mae wedi fy helpu i ddeall diwylliannau eraill ac archwilio fy niddordebau'n ddyfnach drwy ieithoedd.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   Mae gwybod mwy nag un iaith wedi bod yn hynod fuddiol, yn enwedig Saesneg gan fod hyn wedi rhoi'r cyfle i mi ennill ysgoloriaeth. Hefyd, mae Sbaeneg yn rhoi mantais i mi yn fy ngwlad enedigol oherwydd does dim llawer o bobl yn ei siarad yno.

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Cyfraith ryngwladol.

[www.mflmentoring.co.uk](http://www.mflmentoring.co.uk)
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Cael cyfle i ystyried gweithio a theithio y tu allan i fy ngwlad.

8. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Ymarfer gyda phobl eraill. Weithiau, mae'n anodd dod o hyd i bobl i ymarfer gyda nhw.

9. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
   Mewn Arabeg, mae yna wahanol ffyrdd o ddweud "dwi’n dy golli di". Y cyfieithiad arferol fyddai '*ashtaqtulik*' ond y gair arall dwi'n hoffi yw '*wahashtani'* – mae hyn fel dweud wrth rywun bod dy galon wedi mynd yn wag, felly “mae fy nyddiau’n ddrwg ac yn wag hebddot ti”.

10. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
    Eidaleg a Japanaeg.

11. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
    Mae'r prosiect yma wedi rhoi hyder i mi ac wedi cryfhau fy awydd i barhau i ddysgu ieithoedd.

12. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
    Pan dwi’n meddwl am fy ngyrfa fel cyfreithiwr rhyngwladol dwyieithog ac am fy nhad-cu, bydded i Dduw drugarhau wrtho. Roedd e’n siarad saith iaith, ac mae hynny'n fy ysgogi i fod yn debyg iddo fe ac i ddysgu ganddo.

13. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
    Pan oeddwn yn yr ysgol ganol yn Nottingham, prin oeddwn i'n gwybod sut i ddweud fy enw! Bues i mewn llawer o

sefyllfaoedd chwithig, ond dyma fi'n siarad yr iaith yn rhugl nawr!

14. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
Peidiwch â bod ofn methu a rhowch gynnig ar siarad gyda chi'ch hun yn yr iaith! Ymlaen!



www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**